

Adroddiad ar gynnydd targedau Cynllun Hygyrchedd 2026



Mae'r ysgol wedi parhau i wneud cynnydd da tuag at gyflawni amcanion ei Chynllun Hygyrchedd a'i Chynllun Cydraddoldeb. Yn unol â **Tharged 1**, mae'r ysgol wedi buddsoddi'n sylweddol yn natblygiad proffesiynol staff er mwyn sicrhau bod ganddynt y wybodaeth, y sgiliau a'r hyder i ddiwallu anghenion ystod eang o ddysgwyr ag ADY ac anableddau. Yn ystod y flwyddyn, mae staff wedi derbyn hyfforddiant mewn meysydd megis awtistiaeth, anghenion synhwyraidd, anghenion corfforol, trin a llaw, cyfathrebu ac iaith. Mae agor Canolfan Iago hefyd wedi darparu cyfleoedd gwerthfawr i staff ddatblygu eu harbenigedd wrth gefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu mwy cymhleth.

Mae'r ysgol wedi parhau i gryfhau ei darpariaeth gynhwysol drwy sicrhau bod bron pob dosbarth yn cael mynediad at gymorth ychwanegol. O ganlyniad, mae dysgwyr ag ADY, dysgwyr PYDD a dysgwyr eraill sydd angen cymorth ychwanegol yn derbyn cefnogaeth briodol er mwyn cymryd rhan lawn yn y cwricwlwm a gwneud cynnydd yn unol â'u hanghenion unigol. Mae monitro mewnol yn dangos bod y ddarpariaeth hon wedi cyfrannu at well ymgysylltiad, hyder a lles ymhlith nifer o ddysgwyr.

Yn unol â **Tharged 4**, mae'r ysgol wedi parhau i sicrhau bod pob dysgwr yn cael mynediad cyfartal at weithgareddau addysgol, cyfleoedd cyfoethogi ac ymweliadau ysgol. Mae staff wedi cydweithio'n agos â darparwyr allanol, cwmnïau trafnidiaeth ac asiantaethau arbenigol i sicrhau bod gweithgareddau yn hygyrch ac yn briodol i anghenion pob dysgwr. O ganlyniad, mae dysgwyr ag anableddau ac anghenion ychwanegol wedi gallu cymryd rhan ochr yn ochr â'u cyfoedion mewn ystod eang o weithgareddau addysgol, chwaraeon, cerddorol a diwylliannol. Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad yr ysgol i sicrhau cyfle cyfartal a lleihau unrhyw rwystrau i gyfranogiad.

Mewn perthynas â **Tharged 2**, mae'r ysgol wedi parhau i gydweithio'n agos â'r AALI, gwasanaethau iechyd ac arbenigwyr allanol er mwyn gwella hygyrchedd y safle. Yn ystod y flwyddyn, cwblhawyd y gwaith o ddatblygu toiled hygyrch ac ystafell newid ar safle Bryniago Mawr, gan wella'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr yr ysgol a dysgwyr Canolfan Iago. Mae'r

ysgol hefyd wedi parhau i adolygu adnoddau, offer arbenigol a threfniadau hygyrchedd yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion dysgwyr ac ymwelwyr.

Mae gwaith pellach yn parhau mewn partneriaeth â'r AALI i archwilio opsiynau ar gyfer gwella mynediad i bob rhan o Ganolfan Iago. Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad parhaus yr ysgol i leihau rhwystrau ffisegol a sicrhau bod dysgwyr ac ymwelwyr ag anableddau yn gallu cael mynediad llawn at bob rhan o fywyd yr ysgol.

Mae systemau diogelwch cadarn yn parhau mewn lle i ddiogelu dysgwyr ag ADY ac anableddau. Mae Cynlluniau Dianc Personol mewn Argyfwng Tân (PEEPs) yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u rhannu â'r rhanddeiliaid perthnasol, ac mae ymarferion tân yn cael eu cynnal yn gyson. O ganlyniad, mae'r ysgol yn parhau i ddarparu amgylchedd diogel, hygyrch a chynhwysol i bob aelod o gymuned yr ysgol.

Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth yn dangos cynnydd cryf yn erbyn targedau'r cynllun, yn enwedig o ran datblygu darpariaeth ADY, gwella hygyrchedd, hyrwyddo cyfle cyfartal a sicrhau bod pob dysgwr yn gallu cymryd rhan lawn ym mywyd yr ysgol. Bydd yr ysgol yn awr yn canolbwyntio ar adeiladu ymhellach ar y cynnydd hwn drwy ddatblygu arbenigedd staff, ehangu hygyrchedd Canolfan Iago a sicrhau bod pob dysgwr yn parhau i gael yr un profiadau a chyfleoedd â'u cyfoedion.